

CYNGOR SIR PENFRO

PROFFIL SWYDD

TEITL Y SWYDD:	Cynorthwy-ydd Dysgu	CYF. Y SWYDD:
ADRAN:	Addysg	GRADD: Lefel 1
IS-ADRAN:		
ATEBOL I:	Athro/Athrawes Dosbarth	

PWRPAS Y SWYDD

Gweithio o dan gyfarwyddyd staff addysgu/uwch aelodau'r staff, fel arfer yn yr ystafell ddosbarth neu unrhyw ran arall o'r ysgol yn ôl y gofyn, cynorthwyo disgyblion i allu dysgu, gan gynnwys y rhai y nodwyd fod ganddynt anghenion addysgol arbennig a chynnig cynhaliath gyffredinol i'r athro/athrawes wrth reoli disgyblion a'r dosbarth.

CYFRIFOLDEBAU

Cynhaliath i Ddisgyblion

- Gofalu am anghenion personol disgyblion, a gweithredu rhaglenni personol cysylltiol, gan gynnwys materion cymdeithasol, iechyd, corfforol, hylendid, cymorth cyntaf a lles.
- Goruchwyllo a chynnal disgyblion gan ofalu am eu diogelwch a'u gallu i ddysgu, gan gynnwys disgyblion ag anghenion addysgol arbennig
- Meithrin perthnasoedd da gyda disgyblion, bod yn fodel rôl a bod yn ymwybodol o ac yn ymateb yn briodol i anghenion unigolion
- Hyrwyddo cynhwysiant a derbyn pob disgybl
- Annog disgyblion i ryngweithio ag eraill a chymryd rhan mewn gweithgareddau o dan arweiniad yr athro/athrawes
- Annog disgyblion i weithredu'n annibynnol a chynnig adborth yn ôl y galw
- Annog disgyblion i ymddwyn mewn ffordd briodol yn unol â pholisïau sefydledig yr ysgol
- Annog disgyblion i ddatblygu hunanddisgyblaeth, hunan-barch ac annibyniaeth
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o weithredu Cynlluniau Addysg Unigol/Cynlluniau Ymddygiad/rhaglenni Gofal Personol

Cynhaliath i'r Athro/Athrawes

- Paratoi'r ystafell ddosbarth ar gyfer gwersi yn unol â chyfarwyddyd a'u clirio'n syth wedyn a chynorthwyo gydag arddangos gwaith disgyblion
- Bod yn ymwybodol o broblemau/cynnydd/cyflawniadau disgyblion a rhoi gwybod i'r athro/athrawes yn hynny o beth
- Cadw cofnodion disgyblion yn unol â chyfarwyddiadau
- Cefnogi'r athro/athrawes i reoli ymddygiad disgyblion yn unol â pholisïau sefydledig yr ysgol ac annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain
- Gweinyddu profion cynnydd cyffredin os gofynna'r athro/athrawes iddynt wneud
- Casglu/cyflwyno gwybodaeth oddi wrth/i rieni/cynhalwyr yn unol â'r chyfarwyddyd
- Cynnig cynhaliath glerigol/weinyddol ee. llungopïo, teipio, ffeilio, paratoi arddangosfeydd dosbarth, casglu arian ac ati

Cynhaliath i'r cwricwlwm

- Cynnal disgyblion i ddeall chyfarwyddiadau ac ymgymryd â gweithgareddau dysgu yn unol â chyfarwyddyd yr athro/athrawes
- Cynnal disgyblion o ran strategaethau dysgu lleol a chenedlaethol ee llythrennedd, rhifedd, CA3, blynyddoedd cynnar yn unol â chyfarwyddyd yr athro/athrawes

- Cynnal disgyblion wrth ddefnyddio TGCh mewn gweithgareddau dysgu yn unol â chyfarwyddiadau
- Paratoi, cynnal a chadw a defnyddio offer/adnoddau yn unol â chyfarwyddyd yr athro/athrawes a chynorthwyo disgyblion i'w defnyddio

Cynhaliaeth i'r ysgol

- Bod yn ymwybodol o a chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau ynghylch amddiffyn plant, iechyd a diogelwch, cyfrinachedd a diogelu data, rhoi gwybod am unrhyw bryderon i berson priodol.
- I fod yn gyfrifol am hyrwyddo a diogelu lles plant a phobl ifanc yr ydych yn gyfrifol amdanynt, neu yr ydych yn cysylltu gyda.
- I werthfawrogi a pharchu anghenion a barn plant a phobl ifanc.
- Bod yn ymwybodol o a chynnal gwahaniaethau a gofalu fod pob disgybl yn cael yr un cyfleoedd i ddysgu a datblygu.
- Cyfrannu i ethos/gwaith/nodau cyffredinol yr ysgol
- Gwerthfawrogi a chynnal rôl gweithwyr proffesiynol eraill
- Mynychu cyfarfodydd perthnasol yn ôl y galw
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddiant ac o fathau eraill a datblygu perfformiad yn ôl y gofyn
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o oruchwylio disgyblion y tu allan i wersi gan gynnwys cyn ac ar ôl oriau ysgol ac yn ystod yr awr ginio
- Mynd gyda staff addysgu a disgyblion ar ymweliadau, teithiau a gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol yn ôl y galw

MANYLEB PERSON

Cymwysterau a Phrofiad

Hanfodol

- Dylai allu arddangos safon addysgol resymol gan gynnwys hyfedredd mewn llythrennedd a rhifedd i lefel TGAU neu safon gyfatebol
- Dylai fod gan bob ymgeisydd hefyd brofiad o weithio gyda neu ofalu am blant o oed perthnasol mewn sefyllfa daledig, wirfoddol neu gartref a bydd angen iddynt allu arddangos diddordeb yn natblygiad plant ac mewn ystod eang o faterion ynghylch eu haddysg a'u lles
- Gallu i ymwneud yn dda â phlant ac oedolion
- Y gallu i ymddwyn mewn ffordd broffesiynol bob amser

Dymunol

- Byddai parodrwydd i astudio ar gyfer cymhwyster cydnabyddedig/perthnasol, megis NVQ 2 ar gyfer Cynorthwyr Addysgu neu gwblhau Rhaglen Cyfarwyddo Cynorthwyr Addysgu y DfES yn fantais
- Gwybodaeth briodol o gymorth cyntaf cyffredinol
- Dealltwriaeth sylfaenol o a'r defnydd o dechnoleg h.y. cyfrifiadur, fideo, llungopi'ydd
- Tystiolaeth o weithio'n adeiladol fel rhan o dîm, deall rolau a chyfrifoldebau ystafell ddosbarth a'ch sefyllfa chi yn y trefniadau hynny.